

CYFLWYNIAD

Cyflwyniad

Mae Safonau wedi'u cyflwyno ar gyfer y Gymraeg. Maent yn darparu fframwaith cyfreithiol sy'n rhoi hawl i unigolion yng Nghymru dderbyn gwasanaethau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn ddarostyngedig i'r safonau hyn ac, o 25 Gorffennaf 2017 ymlaen, rydym wedi bod yn cydymffurfio gyda chyfanswm o 146 o safonau.

Nid yw darparu gwasanaethau yn Gymraeg yn beth newydd i ni, rydym bob amser wedi cymryd ein cyfrifoldeb tuag at gyflwyno gwasanaethau yn ddwyieithog o ddifri, ac rydym yn ymroddedig i gyflawni'r safonau.

Rydym yn falch o'n treftadaeth a'n diwylliant Cymreig – mae'r iaith yn rhan bwysig o hunaniaeth y Ganolfan ac yn rhan o'r hyn sy'n ein gwneud ni'n unigryw.

Mae ein hymrwymiad i'r iaith yn glir; byddwn yn hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda ni ac yn sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol. Wrth ddod i'r Ganolfan, gall ein hymwelwyr ddisgwyl cael eu croesawu yn Gymraeg a byddwn yn:

- Cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg
- Parchu ac yn cofio dewisiadau iaith
- Hyrwyddo ein sioeau a'n digwyddiadau yn ddwyieithog mewn print ac ar-lein

Tra bod yr adroddiad hwn yn cyflawni un o ofynion y safonau, rydym yn falch o gyhoeddi ein hail adroddiad blynyddol ar gyfer 2017-18, y cyntaf sy'n ymdrin â 'blwyddyn gyfan' o weithredu dan y safonau.

Y safonau

Mae ein Hysbysiad Cydymffurfio, dyddiedig Gorffennaf 2016, yn cynnwys cyfanswm o 146 o safonau, a daeth 118 o'r rheini i rym ar 25 Ionawr 2017 a daeth y 28 oedd yn weddill i rym ar 25 Gorffennaf 2017.

Trosolwg

Fel fîm, mae pawb yn y Ganolfan wedi cymryd cyfrifoldeb ar y cyd ac wedi gweithio'n galed i gyflawni'r safonau. Hefyd, rydym yn ceisio gwneud y broses mor naturiol a chyfeillgar â phosib a chredwn fod hyn wedi'n helpu i lwyddo.

Yn unol â gofynion y 'safonau atodol' yn ymwneud ag adrodd, mae'r adrannau a ganlyn yn canolbwyntio ar ddosbarthiadau safon penodol:

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Trosolwg a Chydymffurfio

Mae gennym gyfanswm o 66 o safonau o fewn y dosbarth hwn, a chredwn ein bod yn cydymffurfio'n llwyddiannus â'u holl ofynion.

Yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda...

Mae **uchafbwyntiau**’r gwaith yr ydym wedi’i wneud yn ystod y flwyddyn yn y maes hwn yn cynnwys:

- Sicrhau bod ein gwefan newydd yn cydymffurfio’n llawn â’r safonau. Rydym yn falch o’r hyn yr ydym wedi’i gyflawni ac mae’r wefan newydd yn darparu adran benodol ar safonau’r Gymraeg a’n hymroddiad i’r iaith.
- Fe wnaethom ddarparu sesiynau briffio a gloywi i staff ynghylch gofynion y safonau, gan sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu hatgyfnerthu. Mae’r rhain yn cynnwys:
 - Sicrhau ein bod yn ysgrifennu at bobl yn ddwyieithog pan fyddwn yn gwneud hynny am y tro cyntaf neu os nad ydym yn gwybod ym mha iaith yr hoffent i ni ohebu â nhw
 - Sicrhau ein bod yn datgan yn glir yn ein gohebiaeth, ein hysbysebion a’n cyhoeddiadau ein bod yn croesawu cyswllt drwy gyfrwng y Gymraeg
 - Sicrhau bod pob aelod o’n staff sy’n derbyn galwadau ffôn yn uniongyrchol gan y cyhoedd yn eu cyfarch yn Gymraeg
 - Sicrhau bod yr holl ddogfennau, deunydd hyrwyddo a hysbysebion yr ydym yn eu cynhyrchu ar gael yn Gymraeg a Saesneg a bod y naill iaith yn cael yr un sylw â’r llall

Yn ogystal, rydym yn parhau i gynnig opsiwn Cymraeg i gwsmeriaid ar ein prif rif ffôn ac mae staff sy’n medru’r iaith yn gweithio ar y ddesg flaen ac yn y swyddfa docynnau fel ein bod yn darparu gwasanaeth dwyieithog i aelodau o’r cyhoedd sy’n ymweld â’r Ganolfan.

Rydym wedi derbyn nifer o sylwadau cadarnhaol gan bobl sydd wedi ymweld â’r Ganolfan ynghylch ein **“croeso dwyieithog cyfeillgar”** ac roeddem yn falch o ddysgu bod cwsmer ers amser maith wedi rhoi adborth cadarnhaol mewn trafodaeth grŵp ar wasanaethau Cymraeg a’i fod wedi sylwi ar **“gynnydd ym mha mor weledol y mae’r Gymraeg yn y Ganolfan, yn benodol ym mlaen tŷ gyda thywyswyr sy’n siarad Cymraeg a staff yn y ddesg groeso.”**

Meysydd i’w gwella a chwynion

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni wnaethom dderbyn unrhyw gwynion oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â’n cydymffurfiaeth â’r safonau Cyflenwi Gwasanaeth.

Safonau Llundio Polisi

Trosolwg a Chydymffurfio

Mae gennym gyfanswm o naw safon o fewn y dosbarth hwn, a chredwn ein bod yn cydymffurfio’n llwyddiannus â’u holl ofynion.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ddatblygu a gweithredu teclyn asesu polisi a diweddarau ein canllaw i staff a’r sesiynau briffio i sicrhau bod unrhyw bolisiâu newydd neu ddiwygiedig yn cael eu hasesu yn nhermau cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a phedio â thrin yr iaith yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gymryd rhan mewn ymchwil a gynhaliwyd ar ran Comisiynydd y Gymraeg ar ein gwaith yn ymwneud â safonau Llundain Polisi.

Meysydd i'w gwella a chwynion

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni wnaethom dderbyn unrhyw gwynion oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'n cydymffurfiaeth â'r safonau Llundain Polisi.

Safonau Gweithredu

Trosolwg a Chydymffurfio

Mae gennym gyfanswm o 43 o safonau o fewn y dosbarth hwn, a chredwn ein bod yn cydymffurfio'n llwyddiannus â'u holl ofynion.

Drwy'r safonau, rydym yn ymrwymo i'r egwyddor y gall ein staff fyw eu bywydau gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg – o lenwi ffurflen gais a chyfweliadau recriwtio, i drafod materion yn ymwneud â'u cyflogaeth.

Yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda...

Mae **uchafbwyntiau** r gwaith yr ydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn yn y maes hwn yn cynnwys:

- Drwy'r cyrsiau Cymraeg Gwaith a hwylusir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fe wnaethom hyrwyddo'r amrywiol gyrsiau Cymraeg sydd ar gael drwy'r rhaglen. Rydym yn falch o fod wedi cefnogi cyfanswm o 55 o aelodau'r fîm i fynychu cyrsiau Cymraeg drwy'r prosiect hwn:
 - fe wnaeth 34 o staff ddilyn y cwrs ar-lein
 - fe wnaeth 12 fynychu cwrs wythnos yn Nant Gwrtheyrn
 - fe wnaeth 9 aelod o staff gofrestru i'r cwrs dwys a ddechreuodd ym mis Mawrth 2018

ac mae pawb wedi rhannu straeon cadarnhaol am eu profiad, gydag un cydweithiwr yn datgan fod **"fy hyder wedi tyfu ers y cwrs Cymraeg Gwaith"**

- Rhoi prosesau yn eu lle i ystyried yr angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd newydd neu swydd wag a chasglu tystiolaeth er dibenion monitro ac adrodd.
- Sicrhau bod prosesau sy'n ymwneud ag AD megis gweithdrefnau cwynion a disgyblu ar gael yn Gymraeg
- Fe wnaethom gynnig sesiynau briffio ar safonau'r Gymraeg fel cyrsiau gloywi ar gyfer staff newydd; fe wnaeth 36 fynychu'r sesiynau briffio yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gymryd rhan mewn ymchwil a wnaed ar ran Comisiynydd y Gymraeg ar ein gwaith yn ymwneud â safonau Gweithredu.

Wrth gyfeirio at y gofynion adrodd penodol a osodwyd arnom:

Sgiliau Cymraeg

Rydym yn cofnodi'r nifer o weithwyr sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Ar ddiwedd 2017/18 roedd y sefyllfa fel a ganlyn:

Cyfanswm Nifer y staff = 474

Cyfanswm nifer y staff gyda sgiliau Cymraeg = 308 (65%). O'r rheini, roedd gan 108 lefel dda o sgil a chyda 200 o aelodau'r fim yn asesu eu hunain fel bod ganddynt sgiliau Cymraeg sylfaenol.

Hyfforddiant

Nifer a chanran y staff a fynychodd cyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn:

Y Cwrs a ddarparwyd	Cyfanswm nifer y mynychwyr	Wedi darparu cynnig yn Gymraeg	Nifer y staff a fynychodd cwrs yn Gymraeg	% y staff a fynychodd y fersiwn Cymraeg
Recriwtio a chyfweld	9	✓	0	0
Rheoli perfformiad	9	✓	0	0
Gweithdrefnau cwynion a disgyblu	9	✓	0	0
Ymsefydlu	28	✓	0	0
Ymdrin â'r cyhoedd	28	✓	0	0
Iechyd a diogelwch	28	✓	0	0

Noder bod yr uchod i gyd wedi'u cynnig yn Gymraeg; fodd bynnag, ni ddangoswyd diddordeb ynddynt gan y staff, gyda phawb yn dewis mynychu'r sesiynau Saesneg.

Recriwtio

Rydym wedi bod yn gweithio ar ein ffordd o adnabod rolau sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg, gan ein bod am edrych ar hyn yn strategol. Yn unol â'r gofynion, rydym yn cofnodi'r wybodaeth a ganlyn:

Maes adrodd	Nifer
Swyddi newydd / swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y cyfnod adrodd	60
Swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol	14
Swyddi lle'r oedd angen dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl cael eu penodi i'r swydd	0
Swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol	43
Swyddi lle nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol	3

Noder bod rhai o'r rolau uchod a hysbysebwyd ar gyfer sawl swydd.

Cwynion

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni wnaethom dderbyn unrhyw gwynion oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'n cydymffurfiaeth â'r safonau Gweithredu.

Yr hyn y byddwn yn canolbwyntio arno yn y flwyddyn i ddod

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r safonau a'n bod yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i'n cwsmeriaid yn eu dewis iaith. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn:

- Sicrhau bod y Ganolfan yn rhoi croeso cwbl Gymreig fel cartref yr Eisteddfod Genedlaethol. Byddwn yn rhoi sesiynau briffio, canllawiau a chymorth i'r staff a byddwn hefyd yn gweithio gyda'n manwerthwyr i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol
- Cynnal archwiliad gweledol o'r Ganolfan i sicrhau bod ein harwyddion yn parhau i gydymffurfio â'r safonau
- Datblygu prosesau i gasglu tystiolaeth o adborth cadarnhaol gan ymwelwyr yn well, a fydd yn cynnwys 'canmolïaeth am y Gymraeg'
- Cyflwyno ein hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a sesiynau ymsefydlu sydd wedi'u diwygio i gynnwys cyfeiriadau at y safonau
- Cynnig gwersi Cymraeg i staff drwy'r cynllun Cymraeg Gwaith gyda ffocws cychwynnol ar staff rheng flaen
- Cynnig sesiynau briffio gloywi ar y safonau i staff allweddol

Am ragor o wybodaeth

Mae rhestr lawn o'r safonau sydd wedi'u gosod arnom ar ein gwefan ac ar wefan Comisiynydd y Gymraeg www.comisiynyddygyymraeg.cymru.

Hefyd, cewch hyd i ragor o wybodaeth am y safonau a Mesur y Gymraeg ar wefan y Comisiynydd.

Cofiwch gysylltu â ni os hoffech ragor o wybodaeth.

029 2063 6464

wmc.org.uk

adborth@wmc.org.uk

neu ar ein tudalennau ar y gwefannau cymdeithasol ...

Facebook/Twitter/Instagram